# Gwisgo setiau ar gyfer cynyrchiadau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â deall gofynion technegol gwisgo setiau o ystyried eu defnydd a'u diogelwch ar gyfer y criw ffilmio.

Mae'r safon hon a wnelo â dehongli brasluniau cynllun set y cynllunydd a'r cyfarwyddiadau. Bydd gofyn ichi gynllunio ar gyfer y criw, deunyddiau, offer, cyfarpar a chostau.

Efallai bydd y safon hon yn addas ar gyfer Addurnwyr Setiau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dehongli brasluniau cynllun set y cynllunydd neu bobl eraill neu syniadau ar lafar a chyfarwyddiadau
2. cydlynu tîm o weithwyr dyddiol i redeg set neu leoliad
3. dadbacio a gwirio'r holl gelfi ddaw i law yn ôl y rhestr gelfi
4. rhoi gwybod am unrhyw anghysondeb i'r bobl gywir a chael celfi eraill yn eu lle os bydd celfi ar goll neu yn anaddas i'w defnyddio
5. rhoi amcangyfrifon o gostau gwisgo setiau i'r cynllunydd cynhyrchu neu bennaeth adran
6. dod o hyd i griw, offer a deunydd i gwrdd â gofynion cynllunio'r cynhyrchiad
7. darparu a storio'r offer sydd ei angen ar gyfer gwisgo setiau
8. defnyddio a chynnal yr offer sydd ei angen ar gyfer gwisgo setiau
9. defnyddio cyfarpar diogelwch personol yn ôl y gofyn
10. adnabod unrhyw offer arbenigol fydd efallai ei angen ar gyfer gwisgo'r set
11. cadarnhau bod yr offer wedi'i brofi a bod y gweithwyr yn gymwys i'w defnyddio
12. gwisgo'r set yn dilyn gofynion ac amserlenni cynhyrchu
13. rhoi ôl traul, heneiddio neu fel arall addasu celfi yn ôl y gofyn
14. gosod addurniadau ar amrywiaeth o wynebau
15. cynnal gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio yn ôl y gofyn

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion yr amserlen gynhyrchu
2. sut i gysylltu gydag aelodau adrannau eraill a dehongli eu gofynion
3. sut i ddefnyddio amrywiaeth o offer a deunyddiau yn ddiogel gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
4. nodweddion a gofynion gwahanol offer, gan gynnwys offer trydanol a llifiau
5. nodweddion gwahanol sylweddau gan gynnwys glud a phaent
6. dulliau gosod addurniadau diogel ar neu i mewn i wahanol wynebau gan gynnwys gosod lluniau gan wneud y difrod lleiaf posibl i'r lleoliad
7. sut i adnabod pa offer efallai fydd angen rhoi ôl traul arnynt, eu heneiddio neu fel arall eu haddasu yn ôl gofynion y sgript
8. pryd i geisio cyngor arbenigol gyda defnyddio offer trydanol yn ddiogel
9. pa foltedd sydd ar gael ar y set neu leoliad
10. trwyddedau fydd efallai eu hangen fel trwydded Gwaith Poeth
11. pa Gyfarpar Diogelwch Personol a dillad sydd ei angen
12. rheoliadau gweithio ar uchder
13. pan fydd gofyn am sgiliau arbenigol fel garddio neu weldio
14. deddfwriaeth, rheoliadau a phrotocolau iechyd a diogelwch ar gyfer y cynhyrchiad

Gwisgo setiau ar gyfer cynyrchiadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSPRP6 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyfryngau a chyfathrebu, Celfyddydau Perfformio, Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Pobl Broffesiynol Cyswllt y Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Celfi ar gyfer Cynyrchiadau |
| **Geiriau Allweddol** | celfi; gwisgo setiau; dehongli cynlluniau; deunyddiau a chostau; gofynion cynhyrchu; offer; |